Charles Thomas Studd 1860–1931

Cricedwr a Chenhadwr

Ganwyd Charles Thomas Studd yn Spratton, Swydd Northampton, ar 2 Rhagfyr 1860 yn drydydd mab i Edward Studd a Dorothy Sophia. Roedd ei dad yn gynhyrchydd indigo yn India.

Addysgwyd ef yng Ngholeg Eton a Choleg y Drindod, Caergrawnt, ac enillodd radd BA ym 1883. Chwaraeai griced i Eton a Chaergrawnt, fel dau o'i frodyr hŷn sef J. E. Kynaston Studd a G. B. Studd. Bu'r tri brawd yn capteinio Prifysgol Caergrawnt rhwng 1882 a 1884 gyda Charles yn gapten ym 1883. Roedd yn chwaraewr cyflawn ac enillodd enwogrwydd am ei gan rhediad pan gurodd Caergrawnt Awstralia o chwe wiced ym 1882. Y flwyddyn honno chwaraeodd i Loegr yn yr Oval, pan enillodd Awstralia o saith rhediad. Roedd ymhlith chwaraewyr gorau Lloegr yn y 1880au. Ef oedd yr ail chwaraewr erioed (yn ail i W. G. Grace) i wneud y dwbl o fil o rediadau a chan wiced. Ym 1882–3 aeth i Awstralia gyda Lloegr gan adennill yr 'Ashes'.

Roedd C. T. Studd yn gricedwr ymroddedig a hyfforddodd ei hun yn drylwyr. Defnyddiai fat hirach na'r cyffredin. Roedd ganddo osgo unionsyth a nodweddai amaturiaid y cyfnod a thrawiad caled gyda'r arddwrn a gynhyrchai rediadau cyson. Bowliai ychydig yn gyflymach na chanolig a'i berfformiad gorau oedd wyth wiced am ddeugain rhediad i Brifysgol Caergrawnt yn erbyn Middlesex. Yn ystod ei yrfa fer fel chwaraewr dosbarth cyntaf, gwnaeth 4,391 rhediad (cyfartaledd 30.49) a chymryd 441 wiced (cyfartaledd 17.36).

Erbyn 1884 roedd C. T. Studd yn enw cyfarwydd. Stori fawr oedd ei ymadawiad â chriced a'i fywyd esmwyth a chyfoethog, er mwyn mynd yn genhadwr i China.

Ym 1875 roedd ei dad wedi clywed yr Efengylydd Americanaidd D. L. Moody yn pregethu. Cafodd hyn y fath argraff arno fel ei fod wedi gwerthu ei geffyl rasio er mwyn ymroi i efengylu. Daeth ei dri mab yn Gristnogion

ymroddedig tra oeddent yn Eton. Ond ar ôl marwolaeth ei dad collodd C. T. Studd ei gariad cyntaf at yr Arglwydd hyd Ionawr 1884. Yn y mis hwnnw credai fod ei frawd G. B. Studd yn marw o gancr ac ymrodd i weithgareddau Cristnogol â'r un manylder a disgyblaeth ag a ddangosodd at griced. Yr oedd yn benderfynol o ymuno gyda'r rhwyfwr Stanley Smith yn y China Inland Mission o dan arweiniad J. Hudson Taylor. Dilynodd pump o'i gyfeillion yr un trywydd ac aeth saith ohonynt o Gaergrawnt i China ym 1885.

Treuliodd naw mlynedd fel cenhadwr oedd yn braenaru'r tir yng ngogledd China. Ym 1887 cyfrannodd ei holl gyfoeth gan fyw trwy ffydd. Y flwyddyn ddilynol priododd y genhades Priscilla Livingstone ac fe gawsant bedair merch. Ym 1894 bu'n rhaid iddo ddychwelyd adref oherwydd salwch. Ni fu ei iechyd byth yr un fath ar ôl hynny. Ym 1896–8 aeth ar daith i Brifysgolion Gogledd America. Er nad oedd yn siaradwr rhwydd, bu ei enwogrwydd a'i ymroddiad yn gyfrwng i ddenu ac i annog llawer o fyfyrwyr i fod yn wirfoddolwyr.

O 1900 hyd 1906 bu yn India. Ym 1908 gwelodd boster yn Lerpwl a ddywedai 'Cannibals want missionaries', yr hyn a'i harweiniodd, yn groes i gyngor meddygol, i sefydlu'r genhadaeth Heart of Africa yn y Congo. Erbyn diwedd ei oes tueddai i fod yn unbenaethol ac achosodd hyn dyndra a gwrthdaro. Oherwydd ei ystyfnigrwydd i barhau â'r gwaith er bod ei iechyd yn gwaethygu aeth yn gaeth i forffin. Bu farw yn Ibambi, Congo Belgaidd, ar 16 Gorffennaf 1931 ac aeth 2,000 o Affricanwyr i'r angladd.